# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**2015 dccc 2**

## RHAN 4

BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

## PENNOD 1

SEFYDLU, CYFRANOGIAD A CHRAFFU

### 29 Byrddau gwasanaethau cyhoeddus

(1) Sefydlir bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

(2) Dyma aelodau pob bwrdd—

(a) yr awdurdod lleol;

(b) y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn yr ardal awdurdod lleol;

(c) yr awdurdod tân ac achub yng Nghymru ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn yr ardal awdurdod lleol;

(d) Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

(3) Yn y Rhan hon, mae unrhyw gyfeiriad at "bwrdd gwasanaethau cyhoeddus" (neu "fwrdd") yn gyfeiriad at aelodau'r bwrdd hwnnw yn gweithredu ar y cyd; yn unol â hynny, mae swyddogaeth a fynegir fel un o swyddogaethau bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn swyddogaeth i bob aelod o'r bwrdd na ellir ond ei harfer ar y cyd â'r aelodau eraill.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/04/2016.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 29. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 29 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 56(2)**

**I2** A. 29 mewn grym ar 1.4.2016 gan O.S. 2016/86, **ergl. 3**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 06/04/2016.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Adran 29.